# **ARIANNU** HEDDLU GOGLEDD CYMRU | **2026/2027** | **FUNDING** NORTH WALES POLICE

Elfen allweddol o'm rôl fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ydy gosod y praesept blynyddol, sef cyfran y Dreth Gyngor sy'n talu am blismona. Mae lefel y praesept yn penderfynu cyfanswm yr arian sydd ar gael ar gyfer plismona Gogledd Cymru. Mae tua hanner yr arian ar gyfer plismona yn dod o'r Dreth Gyngor, a'r hanner arall yn dod o Lywodraeth y DU drwy'r Swyddfa Gartref.

Yn dilyn arolwg gynhaliwyd efo preswylwyr a pherchenogion busnes Gogledd Cymru, a dderbyniodd dros 1,300 o ymatebion – a chyda chytundeb Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru – mi fydd cynnydd o 50c fesul wythnos (neu £26.10 y flwyddyn) yn y Dreth Gyngor ar gyfer eiddo Band D yn y flwyddyn ariannol 2026-27. O ran canran, golygai hyn gynnydd o 7% o'i gymharu â llynedd, ac mae'r swm cytunwyd arno yn dod i rym ar 1 Ebrill 2026.

Nid ydy fy mhenderfyniad i gynyddu'r praesept Plismona ar eiddo cyffredin yn 2026/27 wedi bod yn rhwydd. Dwi'n gwybod bod llawer o bobl a theuluoedd methu ymdopi â chostau byw. Mae hyn yn rhywbeth dwi'n weld a chlywed yn ddyddiol wrth i mi ymweld â chymunedau ledled Gogledd Cymru fel CHTh, ac fel Cynghorydd Cymunedol yng Nghei Connah. Mi wnaed yn amlwg i mi hefyd gan y bobl wnaeth fynychu fy nigwyddiad ymgysylltiad cyhoeddus, sef Bys ar y Pwls. Mi ymwelais â Bangor, Rhuthun, y Fflint, Wrecsam, y Bermo a Bae Colwyn cyn gosod y praesept.

Dwi wedi fy ngwreiddio yn ein cymuned ni, a dwi eisiau'r gorau oll iddi, yn gymdeithasol ac yn economaidd. Rhan hanfodol o gyflawni hyn ydy drwy sicrhau bod gynnon ni Wasanaeth Heddlu effeithiol ac sydd wedi'i ariannu'n dda. Os oes gynnon ni ddigon o arian ar gael, dwi'n gobeithio gweld buddsoddiad mewn nifer o feysydd mae pobl o hyd yn dweud wrtha i maen nhw eisiau gweld gwelliant, megis ymateb yr Heddlu drwy 999 a 101. Golyga hyn fuddsoddiad yng Nghanolfan Reoli'r Heddlu, fydd yn helpu gwella amseroedd ymateb. Dwi hefyd yn gobeithio gweld buddsoddiad yn yr Uned Fforensig Digidol, fydd yn helpu datrys troseddau. Hefyd yn yr Uned Gwarchod Unigolion Bregus, sy'n ymchwilio rhai o'r troseddau mwyaf difrifol, ac sy'n helpu a gwarchod aelodau o'r cyhoedd sydd fwyaf agored i niwed.

Mi roedd aelodau'r cyhoedd gymerodd rhan yn fy arolwg a mynychu fy nigwyddiadau Bys ar y Pwls yn eglur ynglŷn â'r angen i roi'r offer cywir i'r Heddlu ar gyfer cyflawni'u gwaith a'n gwarchod ni. Dwi'n gobeithio bydd y cynnydd yn y praesept dwi'n gynnig yn helpu'r perwyl hwn, ynghyd â fy mlaenoriaethau allweddol o bresenoldeb plismona cymdogaethau lleol; helpu dioddefwyr, cymunedau a busnesau; a system cyfiawnder troseddol deg ac effeithiol.

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

HEDDLU GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES POLICE

PAN FYDD YN LLAI PWYSIG NA 999 | 101 | WHEN IT'S LESS URGENT THAN 999

@NorthWalesPCC

schthgc_nwopcc

A key aspect of my role as Police and Crime Commissioner for North Wales is to set the annual precept, which is the portion of Council Tax that pays for policing. The level that the precept is set at determines the total amount of money available for policing in North Wales. Around half of the funding for policing comes from Council Tax, with the other half coming from the UK Government via the Home Office.

Following a survey that took place with residents and business owners of North Wales involving over 1,300 responses – and with the agreement of the North Wales Police and Crime Panel – there will be a 50p per week (or £26.10 per year) increase in Council Tax for a Band D property for the financial year 2026-27. In percentage terms, this means a 7% increase on last year and the agreed amount is effective from 1 April 2026.

My decision to propose this increase in the Policing precept for an average property for 2026/7 has not been an easy one. I know that many people and many families are struggling with the cost of living. This is something I see and hear day-in, day-out as I visit communities across North Wales as PCC and as a Community Councillor in Connah's Quay. It was also made clear to me by those who came along to a six-location public engagement event called the People's Pulse I held before setting the precept and which visited Bangor, Ruthin, Flint, Wrexham, Barmouth and Colwyn Bay.

I am rooted in our community and I want the very best for it, both socially and economically. And a vital part of achieving this is through ensuring we have a well-funded and effective Police Service. If we have sufficient funding available, I hope to see investment in several areas that people tell me all the time they want to see improved, such as Police response via 999 and 101. This means investing in the Force Control Centre, which will help improve response times. I also hope to see investment in the Digital Forensics Unit, which will help in solving crimes and in the Protecting Vulnerable People Unit, which investigates some of the most serious crimes and supports and protects members of society at highest risk of harm.

The members of the public who took part in my survey and attended my People's Pulse events were clear about the need to give Police the right tools to get their job done and to protect us. I hope my proposed increase to the precept will help in this mission and my key priorities of a local neighbourhood policing presence; supporting victims, communities and businesses; and a fair and effective criminal justice system.







**Yn y daflen hon cewch ddadansoddiad sy'n dangos faint o'ch treth gyngor sy'n cael ei gwario ar blismona a nodir yn fras lle mae eich arian yn mynd. Am wybodaeth bellach ynglŷn â chyllideb yr heddlu, ewch ar wefan SCHTh:** www.northwales-pcc.gov.uk

## BETH YDY EICH BARN CHI?

Mae'r Comisiynydd yn atebol i'r bobl ledled Gogledd Cymru ac mae bob amser yn awyddus clywed barn pawb am faterion yn gysylltiedig â'r heddlu a throsedd. Os hoffech ddweud eich barn wrth y Comisiynydd, ffoniwch **01492 805486** neu e-bostiwch: **OPCC@northwales.police.uk**. Gallwch hefyd fynd ar ein gwefan: **www.northwales-pcc.gov.uk**

## SUT I GYSYLLTU Â HEDDLU GOGLEDD CYMRU

Gallwch gysylltu â swyddogion drwy wefan Heddlu Gogledd Cymru: **www.northwales.police.uk**

Neu gallwch ffonio'r rhif difrys **101** neu **0300 330 0101**. Mewn argyfwng yn unig, ffoniwch **999**.

**This leaflet gives a breakdown of how much of your council tax is spent on policing and an indication of where your money goes. For more information about the police budget, please visit the OPCC website:** www.northwales-pcc.gov.uk

## WHAT DO YOU THINK?

The Commissioner is accountable to people across North Wales and is always eager to hear what they think about police and crime matters. If you want to share your views with the Commissioner, please contact **01492 805486** or email **OPCC@northwales.police.uk**. Alternatively, visit our website: **www.northwales-pcc.gov.uk**

## HOW TO CONTACT NORTH WALES POLICE

You can contact officers through the North Wales Police website: **www.northwales.police.uk**

Alternatively, you can ring the non-emergency number **101** or **0300 330 0101**. For emergencies only, call **999**.

**PRINT BRAS**. Mae'r daflen hon ar gael mewn print bras. Er mwyn cael copi am ddim, ffoniwch **01492 805486**. **LARGE PRINT**. This leaflet is available in large print. For a free copy, simply call **01492 805486**.

## CYLLIDEB YR HEDDLU 2026-2027 Ble mae eich arian yn mynd?
## POLICE BUDGET 2026-2027 Where does your money go?

| | 2025-26 £'000 | 2026-27 £'000 | Fesul/per Band D* £ |
|---|---|---|---|
| **GWARIANT / EXPENDITURE** | | | |
| **Cyflogau - Swyddogion Heddlu** **Pay - Police Officers** | 118,946 | 125,781 | 407.38 |
| **Cyflogau - Staff yr Heddlu** **Pay - Police Staff** | 67,862 | 72,835 | 235.90 |
| **Pensiynau** **Pensions** | 4,013 | 4,070 | 13.18 |
| **Costau Eraill Gweithwyr** **Other Employee Costs** | 7,421 | 7,782 | 25.20 |
| **Costau Rhedeg Eraill** **Other Running Costs** | 52,413 | 53,617 | 173.65 |
| **Cyfraniad i Wariant Cyfalaf** **Contribution to Capital Expenditure** | 5,546 | 5,869 | 19.01 |
| **Gwariant Refeniw Gros** **Gross Revenue Expenditure** | 256,201 | 269,954 | 874.32 |
| **Llai Incwm** **Less Income** | -44,359 | -42,043 | -136.17 |
| **Gofynion y Gyllideb** **Budget Requirement** | **211,842** | **227,911** | **738.15** |
| **DULL O ARIANNU / FINANCED BY** | | | |
| **Grant Penodol yr Heddlu** **Specific Police Grant** | 56,385 | 62,175 | 201.37 |
| **Grant Llawr** **Floor Grant** | 25,018 | 26,848 | 86.96 |
| **Grant Cymorth Refeniw** **Revenue Support Grant** | 15,851 | 15,683 | 50.79 |
| **Cyfran o Drethi Annomestig** **Share of Non-Domestic Rates** | 250 | 242 | 0.78 |
| | **97,504** | **104,948** | **339.90** |
| **TRETH Y CYNGOR** **COUNCIL TAX** | 114,338 | 122,963 | 398.25 |
| **Cyfanswm y Cyllid** **Total Finance** | **211,842** | **227,911** | **738.15** |

### CYLLIDEB GYFALAF Y COMISIYNYDD 2026-2027

| **Gwariant Arfaethedig** | **£'000** |
|---|---|
| Cerbydau ac Offer | 2,563 |
| Gwaith Adeiladu | 10,278 |
| Offer Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | 5,209 |
| | 18,050 |
| **Dull o Ariannu** | **£'000** |
| Grantiau Cyfalaf | 100 |
| Benthyca | 9,855 |
| Derbynebau Cyfalaf | 1,576 |
| Cyfraniad Refeniw a Balansau | 6,519 |
| | 18,050 |

### THE COMMISSIONER'S CAPITAL BUDGET 2026-2027

| **Proposed Expenditure** | **£'000** |
|---|---|
| Vehicles and Equipment | 2,563 |
| Building Works | 10,278 |
| Information Technology and Communication Equipment | 5,209 |
| | 18,050 |
| **Method of Financing** | **£'000** |
| Capital Grants | 100 |
| Borrowing | 9,855 |
| Capital Receipts | 1,576 |
| Revenue Contribution and Balances | 6,519 |
| | 18,050 |

### Faint o'ch arian treth cyngor sy'n cael ei wario ar blismona?

Mae naw band treth cyngor yng Ngogledd Cymru, sydd wedi'u seilio ar werth cyfalaf yr eiddo yn 2003.

*Band D yw'r dull Cenedlaethol o gymharu lefelau treth. Dim ond £398.25 o fil treth cyngor Band D sy'n cael ei glustnodi ar gyfer ariannu Gwasanaeth yr Heddlu yng Ngogledd Cymru, fel y cytunwyd gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Felly, yn dibynnu ar Fand eich eiddo chi, dyma faint o'ch bil treth cyngor fydd yn cael ei roi tuag at wasanaeth yr heddlu yng Ngogledd Cymru:

### How much of your council tax is spent on policing?

There are nine council tax bands in North Wales, based on the capital value of the property in 2003.

*Band D is used for National comparisons of tax levels. From a Band D Council Tax bill, only £398.25 is allocated to funding the Police service of North Wales, as agreed by the Police and Crime Commissioner for North Wales.

Therefore, depending on your property band, the amount from your Council tax bill which funds the Police Service of North Wales is as follows:

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **BAND A** | £265.50 | **BAND B** | £309.75 | **BAND C** | £354.00 | **BAND D** | £398.25 | **BAND E** | £486.75 |
| **BAND F** | £575.25 | **BAND G** | £663.75 | **BAND H** | £796.50 | **BAND I** | £929.25 | | |

### Cymharu lefel y Gyllideb Refeniw â chanllawiau Llywodraeth Cymru

Gan ddefnyddio fformiwla a luniwyd ar gyfer pob Heddlu yng Nghymru a Lloegr, mae Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gartref wedi cyflwyno "safon gwariant" a elwir yn Asesiad Gwariant Safonol (AGS) a Grant yr Heddlu o £153.270m ar gyfer 2026-2027. Dyma yw asesiad y Llywodraeth o'r hyn y bydd angen i'r Comisiynydd ei wario er mwyn darparu'r un lefel o wasanaeth a chomisiynwyr eraill yng Nghymru os ydynt hwythau hefyd yn gwario yn unol â chyfanswm eu AGS a'u Grant Heddlu eu hunain.

Mae gan y Comisiynydd hawl i wario mwy na chyfanswm yr AGS a'r Grant Heddlu, gyda'r gwahaniaeth yn cael ei ariannu gan y Treth Cyngor neu o'r Cronfeydd Wrth Gefn. Mae'r Comisiynydd wedi penderfynu ar ofyniad Cyllideb o £227.911m.

### Comparison of the level of the Revenue Budget with the Welsh Government's guidance


Using a formula developed for all Police Forces in England and Wales, the Welsh Government (WG) and the Home Office have issued a "spending norm" known as the Standard Spending Assessment (SSA) plus Police Grant of £153.270m for 2026-2027. This is the Government's assessment of the Commissioner's need to spend in order to provide the same level of service as other commissioners in Wales if they also spend at the level of their own SSA plus Police Grant.

The Commissioner is allowed to spend in excess of its SSA/ Police grant total, with the excess being funded from the Council Tax or Reserves. The Commissioner has set a Budget requirement of £227.911m.


### 1. O ble mae'r arian yn dod?
### 2. Beth ydych yn ei gael am eich arian?

### 1. Where does the money come from?
### 2. What do you get for your money?

1.




2.




**Amcangyfrif o gronfeydd ariannol wrth gefn y Comisiynydd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol**
**The Commissioner's estimated financial reserves at the end of the financial year**

| 2025-2026 | 2026-2027 |
|---|---|
| £53.041 miliwn/million | £44.378 miliwn/million |

### Lle allwch chi gael mwy o fanylion?

**Cysylltwch â:**
Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
Glan y Don, Bae Colwyn LL29 8AW

**Ffôn:** 01492 805486

**E-bost:** schth@heddlugogleddcymru.police.uk

### Where can you get more details?

**Please contact:**
Office of the Police & Crime Commissioner North Wales
Glan y Don, Colwyn Bay LL29 8AW

**Tel:** 01492 805486

**Email:** OPCC@northwales.police.uk